# Cyngor Sir Ddinbych Adroddiad Dyletswydd Blynyddol Partneriaeth Gymdeithasol 2024 i 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg. This document is available in Welsh.

# Adroddiad Dyletswydd Blynyddol Partneriaeth Gymdeithasol 2024 i 2025

## Cynnwys


Crynodeb Gweithredol 3

Cefndir 3

Ein Hymagwedd ac Arferion Presennol 4

Y Cydbwyllgor Ymgynghori ar Iechyd a Diogelwch a Chysylltiadau Gweithwyr 5

Grŵp Ymgynghori Cysylltiadau Gweithwyr 5

Dysgu a Datblygu 6

Cyfarfodydd Ymgynghori Ailstrwythuro 6

Cyflogau a Gwobrwyo – Gwerthuso Swyddi 6

Polisi Amser o'r Gwaith Cyfleusterau 7

Adolygu Perfformiad y Cyngor 7

Symud Ymlaen 8

Cynllun Gweithredu'r Bartneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus 8

# Adroddiad Dyletswydd Blynyddol Partneriaeth Gymdeithasol 2024 i 2025

## Crynodeb Gweithredol

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor, fel corff cyhoeddus, i lunio adroddiad blynyddol i ddangos sut maent wedi cydymffurfio gyda'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol. Mae'n rhaid i'r adroddiad hwn gael ei gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol i'w graffu. Mae Adran 18 o'r Ddeddf yn nodi:

Adroddiadau Partneriaeth Gymdeithasol:

(1) Mae'n rhaid i gorff cyhoeddus baratoi, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, adroddiad o'r hyn mae wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd.

(2) Mae'n rhaid i undebau llafur cydnabyddedig y corff cyhoeddus gytuno â'r adroddiad neu (pan nad oes unrhyw undeb llafur cydnabyddedig) gynrychiolwyr eraill o'i staff neu dylid cynnwys datganiad yn egluro pam na chytunwyd arno.

(3) Rhaid i'r corff cyhoeddus gyhoeddi'r adroddiad a'i gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol cyn gynted ag y mae'n rhesymol ymarferol i wneud hynny ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

Nid yw'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn darparu templed ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r camau a gymrwyd gydag undebau llafur cydnabyddedig y cyngor i weithredu'r ddyletswydd yng Nghyngor Sir Ddinbych.

## Cefndir

Mae'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn darparu ar gyfer fframwaith i ehangu lles pobl Cymru drwy wella gwasanaethau cyhoeddus drwy waith partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol. Ei fwriad yw cyd-fynd â deddfwriaethau eraill, gan gynnwys y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

# Adroddiad Dyletswydd Blynyddol Partneriaeth Gymdeithasol 2024 i 2025

Mae’r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i’r cyngor, wrth weithredu datblygu cynaliadwy, cyn belled ag y mae’n rhesymol i wneud hynny, i geisio consensws neu gyfaddawd gyda’u hundebau llafur cydnabyddedig wrth osod eu hamcanion lles (yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) a gwneud penderfyniadau o natur strategol yn ymwneud â’r camau rhesymol maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni’r amcanion hynny a osodwyd.

Mae Adran 16(2) y Ddeddf yn nodi nifer o ofynion penodol yn ymwneud â’r Ddyletswydd, y mae’n rhaid i’r cyngor gydymffurfio â nhw wrth ‘geisio consensws neu gyfaddawd’. Bwriad y gofynion yw sicrhau fod yr undebau llafur yn ymwneud yn llawn ac yn briodol pan fo corff cyhoeddus yn gosod ei amcanion lles, neu pan fo’n gwneud penderfyniadau strategol. Mae’n nodi: er mwyn ceisio consensws neu gyfaddawd mae’n rhaid i gorff cyhoeddus gynnwys ei undebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr eraill o’i staff yn y broses o osod amcanion neu wneud penderfyniadau drwy (yn benodol):-

1) ymgynghori â nhw ar gam ffurfiannol y broses, a

2) fel arall eu cynnwys trwy gydol y broses drwy:

   (i) ddarparu gwybodaeth ddigonol i’w galluogi i ystyried yn iawn beth gaiff ei gynnig, a

   (ii) darparu amser digonol i’w galluogi i ystyried yn ddigonol beth gaiff ei gynnig ac ymateb.

## Ein Hymagwedd ac Arferion Presennol

Cyn gweithredu’r ddeddf newydd, roedd Sir Ddinbych wedi cydnabod pwysigrwydd a gwerth cydweithio gyda’r undebau llafur gyda’r fframweithiau canlynol eisoes wedi eu sefydlu yn y Cyngor ac maent wedi bod yn gweithredu dros y 12 mis diwethaf:

# Adroddiad Dyletswydd Blynyddol Partneriaeth Gymdeithasol 2024 i 2025

## Y Cydbwyllgor Ymgynghori ar Iechyd a Diogelwch a Chysylltiadau Gweithwyr

Cynrychiolaeth: Mae’r pwyllgor yn cynnwys un aelod ar bymtheg – wyth “Cynrychiolydd y Cyflogwr” sy’n 6 aelod gynghorydd etholedig a benodwyd ar sail wleidyddol gytbwys, gan gynnwys o leiaf un Aelod Cabinet (gorau oll os yw â chyfrifoldeb dros AD a / neu faterion iechyd a diogelwch), a dau Swyddog. Y Swyddogion hyn fydd y Prif Weithredwr neu’r Cyfarwyddwr Corfforaethol a’r Pennaeth AD.

Wyth “Cynrychiolydd y Cyflogwr” sy’n gyflogwyr y Cyngor ac fe fyddant yn cael eu penodi gan ochr yr undebau llafur. Bydd tri o’r rhain yn cael eu penodi gan gangen UNSAIN Sir Ddinbych a dau (2) yn cael eu penodi gan Ganghennau Sir Ddinbych o'r GMB ac undeb Unite. Bydd un yn cael ei benodi i gynrychioli gweithwyr mewn ysgolion fel aelod pleidleisio o'r pwyllgor ar gyfer materion iechyd a diogelwch a ystyrir gan y pwyllgor.

Caiff y grŵp hwn ei sefydlu ar gyfer ymgynghori rheolaidd a phan fo angen gwneud argymhellion i’r pwyllgor priodol neu’r sawl sy’n gwneud y penderfyniad, mae’n cyfarfod bob chwarter ac yn ystyried materion AD ac Iechyd a Diogelwch.

## Grŵp Ymgynghori Cysylltiadau Gweithwyr

Cynrychiolaeth: Ysgrifennydd Cangen a Enwebwyd ar gyfer Unsain, GMB, Unite a’r cynrychiolydd a enwebwyd ar gyfer y Seicolegydd Addysg, Rheolwr AD a’r Rheolwr Cysylltiadau Gweithwyr. Mae’r grŵp yn cyfarfod bob 6 wythnos i drafod materion yn ymwneud â’r gweithwyr.

Dros y 12 mis diwethaf mae’r grŵp wedi edrych ar greu polisïau a’u datblygu er enghraifft – y Polisi Aflonyddu Rhywiol newydd, y Polisi Deallusrwydd Artiffisial newydd, y Polisi Absenoldeb Gofalwyr Maeth a diwygiadau i Weithio Hyblyg, Rheoli Absenoldeb Gofalwyr, Adleoli a newidiadau eraill. Mae nifer o ymgynghoriadau wedi bod ar gyfer ailstrwythuro arfaethedig a newidiadau er enghraifft newidiadau i Gynnal a Chadw yn ystod y Gaeaf, gwasanaethau glanhau, gwasanaethau oedolion a newidiadau i swyddi unigol / dileu. Mae’r grŵp hwn wedi cytuno ac wedi cyflwyno arolwg staff newydd, wedi derbyn

diweddariadau o ran y gyllideb gan y Prif Weithredwr a’r Swyddog Adran 151 ac wedi trafod materion eraill yn ymwneud â chyflogaeth.

Mae gan y Cyngor hefyd grŵp ymgynghori ffurfiol sefydledig sy’n cyfarfod yn rheolaidd gyda’r holl gynrychiolwyr undebau llafur athrawon i drafod addysg a materion yn ymwneud ag ysgolion.

## Dysgu a Datblygu

Mae’r Cyngor a’r Undebau Llafur yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu a darparu cyfleoedd hyfforddi a ariennir i staff trwy gyllid Cronfa Ddysgu Undebau Cymru, mae nifer o gyrsiau ar gyfer darpar arweinwyr, cyrsiau yn ymwneud â gwytnwch, iechyd a lles ac eraill wedi bod o fudd i’n gweithwyr.

## Cyfarfodydd Ymgynghori Ailstrwythuro

Cyn i unrhyw ymgynghoriadau ailstrwythuro ddechrau mae’r Cyngor yn cyfarfod cydweithwyr yr undebau llafur i drafod y cynigion, mae’r rhain wedi eu gwneud ar sail ad hoc wrth a phan maent yn digwydd. Wrth i gyfarfodydd ychwanegol neu newidiadau ddigwydd caiff yr undebau llafur y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd.

## Cyflogau a Gwobrwyo – Gwerthuso Swyddi

Er mwyn sicrhau fod gan y cyngor strwythur graddio tryloyw, caiff pob swydd sy’n ddarostyngedig i amodau’r Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Llywodraeth Leol eu gwerthuso yn unol â chynllun gwerthuso swyddi Cyngor Taleithiol Llundain Fwyaf. Mae’r cynllun gwerthuso swyddi wedi ei seilio ar 11 ffactor, system sgorio a phwysoliadau sy’n rhydd o ragfarn a gwahaniaethu ar sail rhyw. Cyflwynir pob swydd newydd ar gyfer ei gwerthuso a gallai swydd hefyd gael ei chyflwyno er mwyn ei hail asesu os yw dyletswyddau neu lefel cyfrifoldebau’r swydd yn cynyddu neu’n newid yn sylweddol. Mae’r panel sy’n ystyried y gwerthusiadau swydd yn cynnwys cydweithwyr undebau llafur a swyddogion.

# Adroddiad Dyletswydd Blynyddol Partneriaeth Gymdeithasol 2024 i 2025

### Polisi Amser o'r Gwaith Cyfleusterau

Mae'r cyngor yn cefnogi'r undebau llafur i ddarparu amser i ffwrdd i weithwyr i gyflawni gweithgareddau'n ymwneud â'r undebau llafur.

## Adolygu Perfformiad y Cyngor

Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru gwblhau Asesiad Perfformiad Panel i asesu eu perfformiad yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 unwaith bob pum mlynedd. Cyngor Sir Ddinbych oedd y Cyngor cyntaf yng Nghymru i fod yn destun asesiad ym Medi 2024 ac roedd yn cael ei arwain gan banel o unigolion o bob cwr o'r DU, yn cynnwys cadeirydd annibynnol, uwch swyddog llywodraeth leol, Aelod Etholedig o awdurdod lleol arall yng Nghymru a dau o gymheiriaid o'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ehangach. Cynhwysodd y Cyngor yr undeb llafur yn ei broses asesu.

Ein Dyheadau ar gyfer y Dyfodol

Mae Partneriaeth Gymdeithasol Cyngor Sir Ddinbych yn gweithredu mewn partneriaeth gyfartal rhwng Cyngor Sir Ddinbych a'r undebau llafur cydnabyddedig, gan barchu sofraniaeth a strwythur wneud penderfyniadau pob partner a gwreiddio'r egwyddorion a chyfres o ymddygiadau y mae pob partner yn ymrwymo i'w cynnal:

- Egwyddorion partneriaeth gymdeithasol - Ymrwymiad a rennir
- Cydweithredu - Llwyddiant drwy ddatrys problemau ar y cyd, cyfaddawdu a dod i gonsensws.
- Parch - Cydnabod diddordeb cyfreithlon a diddordeb a all wrthdaro.
- Ymddiriedaeth - Perthnasoedd wedi eu seilio ar onestrwydd, dilysrwydd, tryloywder, didwylledd ac anhunanoldeb.
- Llais a Chyfranogiad - Gwybodaeth ragweithiol ac amserol, ymgynghori ac ymgysylltu.

# Adroddiad Dyletswydd Blynyddol Partneriaeth Gymdeithasol 2024 i 2025

- Enillion Cydfuddiannol - Cyflawni gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus, lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol a chanlyniadau gwaith teg.

## Symud Ymlaen

Ers i'r Ddeddf gael ei gweithredu mae'r Cyngor wedi sefydlu grŵp ffocws gyda'r undebau llafur i adolygu ein harferion presennol a phenderfynu ein dyheadau partneriaeth ar y cyd ar gyfer y dyfodol, ac mae'r cyfan wedi ei nodi yn y cynllun gweithredu canlynol:

### Cynllun Gweithredu'r Bartneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus

| Rhif | Cam Gwerthredu |
|---|---|
| 1 | Ymwneud ystyrlon yr Undebau Llafur o ran pennu Amcanion Lles |
| 2 | Adeiladu ar gynhwysiant o ran llunio penderfyniadau strategol |
| 3 | Edrych ar grwpiau sy'n bodoli / mecanweithiau yn y Cyngor a allai gynnwys aelodaeth o undeb llafur (gan gynnwys CYBLI, cyfarfodydd gwasanaeth, Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol, bwrdd lles ayb). |
| 3 | Rheoli Perfformiad a monitro amcanion |
| 4 | Canllaw ymgynghori - gwybodaeth a therfynau amser |
| 5 | Amser cyfleusterau - sicrhau fod hwn wedi ei ddynodi i weithwyr ar gyfer yr Undebau Llafur cydnabyddedig i alluogi presenoldeb mewn cyfarfodydd. |
| 6 | Hyrwyddo hyfforddiant e-ddysgu Partneriaeth Gymdeithasol ar gyfer yr holl staff |

## Adroddiad Dyletswydd Blynyddol Partneriaeth Gymdeithasol 2024 i 2025

| Rhif | Cam Gwerthredu |
| --- | --- |
| 7 | Codi Ymwybyddiaeth gyda'r Tîm Arwain Strategol |
| - | Caffael |
| 7 | Deall Canllawiau Llywodraeth Cymru |
| 8 | Beth yw ein hamcanion eang a rennir yn ymwneud â chaffael?<br>• Sut mae'r rhain yn effeithio ar y broses cyn dyfarnu?<br>• Sut mae'r rhain yn effeithio ar y broses ddyfarnu?<br>• Sut mae'r rhain yn effeithio ar fonitro contract? |
| 9 | Edrych ar fanylion penodol ar gontractau adeiladu mawr |
| 10 | Edrych ar fanylion penodol yn ymwneud â darparu gan gyflenwyr allanol |

**Catrin Roberts**

**Pennaeth Gwasanaethau Cynnal Corfforaethol - Pobl**